**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Menter a Busnes

**National Assembly for Wales**
Enterprise and Business Committee

| | |
|---|---|
| Cynulliad Cenedlaethol Cymru | National Assembly for Wales |
| Y Pwyllgor Menter a Busnes | Enterprise and Business Committee |
| Gwasanaethau Bysiau a Thrafnidiaeth Gymunedol yng Nghymru | Bus and Community Transport Services in Wales |
| BCT 09 | BCT 09 |
| Traveline Cymru | Traveline Cymru |

**<u>Cwestiynau'r ymgynghoriad</u>**

**Cwestiwn 1** - Sut fyddech chi'n disgrifio cyflwr presennol y sector bysiau a thrafnidiaeth gymunedol yng Nghymru?

Ein rôl ni yw darparu gwybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus; nid ydym o'r farn ein bod mewn sefyllfa i roi sylwadau cynhwysfawr ar y cwestiwn hwn.

Fodd bynnag, mae newidiadau i'r rhwydwaith gwasanaethau bysiau a'r seilwaith sy'n gysylltiedig â'r rhwydwaith yn dylanwadu ar ein llwyth gwaith; rydym wedi gweld llawer o newidiadau dros y blynyddoedd diwethaf, gan gynnwys gwaith ailddatblygu gorsafoedd bysiau ar raddfa fawr a newidiadau sylweddol i rwydweithiau bysiau wrth i weithredwyr fireinio eu rhwydweithiau yng ngoleuni blaenoriaethau economaidd ac wrth i awdurdodau lleol leihau eu cymorthdaliadau i wasanaethau a gynorthwyir. Felly, gallech ddisgrifio'r sector bysiau yn ystod y blynyddoedd diwethaf fel sector sydd wedi bod yn gyfnewidiol.

**Cwestiwn 2** – pam ydych chi'n meddwl bod nifer y gwasanaethau bysiau a nifer y teithwyr bysiau yn gostwng yng Nghymru?

O'n safbwynt ni fel darparwyr gwybodaeth mae nifer y gwasanaethau bysiau ar ein systemau wedi gostwng o 1,412 o wasanaethau yn 2010 i 1,091 ar 29 Medi 2015.

Rydym ar ddeall bod y gostyngiad hwn wedi digwydd oherwydd bod rhai gweithredwyr wedi cyfuno gwasanaethau, oherwydd bod cymorth awdurdodau lleol i wasanaethau sy'n angenrheidiol o safbwynt cymdeithasol wedi gostwng, ac oherwydd bod gweithredwyr yn cynnal asesiadau mwy llym o hyfywedd masnachol llwybrau. Mae'n anochel

bod llai o wasanaethau'n gallu arwain at lai o deithwyr.

**Cwestiwn 3 –** beth yn eich barn chi yw effaith gymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol y newidiadau diweddar mewn lefelau gwasanaethau bysiau a chludiant cymunedol?

Fel darparwyr gwybodaeth, nid ydym o'r farn ein bod mewn sefyllfa i roi sylwadau cynhwysfawr ar y cwestiwn hwn. Fodd bynnag, mae adborth gair am air o'r ddau arolwg cwsmeriaid diwethaf a gynhaliwyd gan ein canolfan alwadau'n dangos lefelau uwch o anfodlonrwydd, fel y gwelir yn y dyfyniadau isod (sydd wedi'u cyfieithu i'r Gymraeg):

"Doedd dim bws ar gael pan oedd angen un arnaf"
"Dydyn nhw (yr asiantiaid) ddim yn gallu gwella, ond dylai'r prisiau gael eu gostwng"
"Doedd dim byd yn bod ar yr alwad, dim ond y ffaith nad oes gwasanaethau ar gael ar ddydd Sul"
"Roedden nhw'n barod iawn i helpu... o safbwynt cynnig llwybr ond dyw'r bysiau ddim yn rhedeg yn ddigon aml i ddiwallu fy anghenion i"
"Dyw'r bysiau ddim yn rhedeg mor aml (yr X91)"
"Roedd y person yn hyfryd, ond dyw'r gwasanaeth bws ddim yn dda"
"Roedd yr alwad ffôn yn berffaith ond roedd yr amserlen yn warthus"

**Cwestiwn 4** – beth ydych chi'n meddwl y dylai Llywodraeth Cymru ei wneud i gefnogi gwasanaethau bysiau a thrafnidiaeth gymunedol yng Nghymru?

Rydym o'r farn y gallai Llywodraeth Cymru wneud mwy i sicrhau bod gwybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus yn cael ei darparu mewn modd mwy cyson ac effeithiol ar lawr gwlad, drwy ddefnyddio / creu pwerau sy'n mynnu bod awdurdodau lleol yn cynnig safon ofynnol sy'n gyson ar draws Cymru. Rydym wedi dadlau dros hynny o'r blaen mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor Defnyddwyr Trafnidiaeth Gyhoeddus ac eraill.

**Cwestiwn 5 –** beth ydych chi'n meddwl y dylai awdurdodau lleol yng Nghymru ei wneud i gefnogi gwasanaethau bysiau a thrafnidiaeth gymunedol yng Nghymru?

Rydym o'r farn y dylai awdurdodau lleol wneud mwy i farchnata'r gwasanaethau bysiau sydd ar gael yn eu hardal, drwy weithio mewn partneriaeth â gweithredwyr ac eraill efallai. Dylent wneud hynny yn yr un modd ag y maent yn hyrwyddo cyfleuster hamdden, theatr leol neu rywbeth tebyg, er enghraifft, fel bod pawb yn cael cyfle i ddefnyddio'r cyfleuster a'u bod yn ymwybodol o'r amseroedd agor a'r prisiau. Dylai hynny ddigwydd yng nghyswllt gwasanaethau bysiau o safbwynt sicrhau bod amseroedd a phrisiau tocynnau'n cael eu hyrwyddo'n ehangach.

**Cwestiwn 6** – beth yw eich barn am gynigion i ddatganoli pwerau cofrestru bysiau i Gymru? Sut y dylai'r rhain gael eu defnyddio?

Mae hwn yn faes a allai effeithio'n uniongyrchol ar ein rôl ni, felly rydym am gynnig y sylwadau canlynol.

Mae Traveline Cymru o'r farn y byddai datganoli pwerau cofrestru bysiau i Gymru yn arwain at fanteision sylweddol i ddefnyddwyr bysiau (ein cwsmeriaid) a gweithredwyr bysiau (ein rhanddeiliaid).

Yn gyntaf rydym ar ddeall nad yw'r broses cofrestru bysiau, a reolir ar hyn o bryd yn Leeds, yn gallu cynnig gwasanaeth dwyieithog, ac mae hynny'n peri rhwystredigaeth i weithredwyr bysiau. Mae adborth anecdotaidd yn awgrymu y ceir elfen o roi sêl bendith yn awtomatig i gofrestriadau ac nad oes digon o waith craffu'n digwydd – gallai hynny arwain at anawsterau i ddefnyddwyr bysiau.

Yn ail mae'r broses ei hun yn golygu archwilio, crynhoi a mewnbynnu gwybodaeth am amserlenni a gwybodaeth berthnasol arall. Mae Traveline Cymru yn ymgymryd â'r broses hon hefyd, oherwydd mae angen i ni gael yr holl wybodaeth a gaiff ei chyflwyno i Leeds er mwyn diweddaru ein systemau a darparu gwybodaeth gywir a chyfredol am amserlenni a llwybrau bysiau i'r cyhoedd sy'n teithio.

Yn drydydd nid yw'n ofynnol ar hyn o bryd i weithredwr bysiau roi gwybod i Traveline Cymru am unrhyw wasanaeth newydd, gwasanaeth sydd wedi'i ganslo neu wasanaeth sydd wedi'i ddiwygio. Mae hynny'n golygu ein bod yn dibynnu'n llwyr ar ewyllys da gweithredwyr/ ein perthynas â gweithredwyr i gael gwybod am newidiadau er mwyn sicrhau bod y data'r ydym yn ei roi i ddefnyddwyr bysiau mor gyfredol ag sy'n bosibl. Drwy ymgymryd â'r gwaith o reoli'r broses cofrestru bysiau – sy'n rhywbeth y mae'n rhaid i weithredwyr bysiau ei wneud –

byddai Traveline Cymru ar unwaith yn dileu'r prif ffactor sy'n achosi cwynion gan gwsmeriaid, sef ein diffyg ymwybyddiaeth o'r hyn nad ydym yn ei wybod. Er y gallai Traveline brosesu cofrestriadau bysiau, o safbwynt ymarferol, mae'r ddeddfwriaeth gyfredol yn mynnu mai Llywodraeth Cymru fyddai'n gyfrifol.

Rydym wedi dadlau ers amser, pe bai'r broses o gofrestru bysiau'n cael ei chyflawni gan Traveline Cymru yng Nghymru, y byddai hynny'n arwain at y manteision canlynol:

1. Byddai'n cymryd llai o amser i brosesu cofrestriadau, a fyddai'n arwain at fanteision i ddefnyddwyr bysiau a gweithredwyr.
2. Byddai modd cynnig gwasanaeth dwyieithog i weithredwyr.
3. Byddai'n lleihau achosion o ddyblygu gwaith, h.y. bod dau sefydliad gwahanol yn ymdrin â'r un wybodaeth, a fyddai'n arwain at arbed costau'n gyffredinol.
4. Byddai'n sicrhau bod y ffïoedd a gaiff eu talu gan y gweithredwyr yn aros yng Nghymru (£60 am bob cofrestriad).
5. Byddai'n sicrhau bod y lefel orau posibl o gywirdeb ac o wybodaeth gyfredol ar gael i'r sawl sy'n teithio ar fysiau yng Nghymru.

Yn amgaeëdig y mae copi o'r ddogfen a gyflwynwyd gennym i Bwyllgor Dethol Tŷ 'r Cyffredin ar Drafnidiaeth, dyddiedig Chwefror 2014, sy'n ymwneud â'r mater hwn.

Cwestiwn 7 – dywedwch wrthym a ydych yn credu bod angen mwy o bwerau i reoleiddio'r diwydiant bysiau yng Nghymru a pham?

Nid oes gennym farn ynghylch rheoleiddio'r diwydiant bysiau; ein hunig ddymuniad yw sicrhau bod yr holl wybodaeth am unrhyw wasanaeth bws ar gael i ni cyn gynted ag y bo modd, er mwyn i ni allu rhoi gwybodaeth i deithwyr / teithwyr posibl.

**Cwestiwn 8** - pa gamau eraill y gellir eu cymryd i sicrhau bod gwasanaethau bysiau a thrafnidiaeth gymunedol yn diwallu anghenion pobl Cymru?

| |
|---|
| Nid oes gennym farn ynghylch y cwestiwn hwn. |

| Nodwch unrhyw beth arall yr hoffech sôn amdano ar y pwnc hwn, diolch i chi am gyfrannu at ein hymchwiliad. |
|---|
| Yn amgaeëdig y mae nodyn briffio am rôl Traveline Cymru a rhychwant ei waith. Diolch. |

**Datgelu gwybodaeth**
Oni bai eich bod yn gofyn i ni beidio â gwneud, byddwn yn cyhoeddi eich ymateb. Mae polisi'r Cynulliad ynghylch datgelu gwybodaeth i'w weld yma. Sicrhewch eich bod yn ystyried y manylion hyn yn ofalus cyn cyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor. Gellir gofyn am y polisi hwn mewn fformatau eraill trwy gysylltu â Chlerc y Pwyllgor.

| |
|---|
| **Rwy'n cyflwyno'r ymateb hwn yn rhinwedd fy swydd.** |

**Cyflwyno tystiolaeth**

Os ydych am gyflwyno tystiolaeth, anfonwch gopi electronig o'ch ffurflen i SeneddBusnes@Cynulliad.Cymru

Fel arall, gallwch ei hanfon at:
Clerc
Y Pwyllgor Menter a Busnes
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, CF99 1NA.

TravelineCymru
0871 200 22 33
www.traveline.cymru
Gwybodaeth teithio didrafferth
Trouble free travel info

PTI Cymru

**Blwch Post 83, Caerdydd CF11 8TB 02920 344470**

**<u>Ynglŷn â Traveline Cymru</u>**

Mae PTI Cymru Ltd yn gwmni a ariennir yn bennaf gan Lywodraeth Cymru ac a sefydlwyd gan weithredwyr bysiau mwyaf Cymru, o ganlyniad i Ddeddf Trafnidiaeth 2000. Mae'n gwmni dielw, a'i brif ddiben yw darparu gwybodaeth ddiduedd a dwyieithog am bob math o drafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru. Mae'n gwneud hynny dan yr enw brand Traveline Cymru drwy gasglu gwybodaeth gan awdurdodau lleol, a gweithredwyr bysiau, llongau fferi a threnau, ac yna sicrhau bod y wybodaeth honno ar gael i'r cyhoedd.

Mae Traveline Cymru yn darparu oddeutu 2.2 miliwn o ddarnau o wybodaeth am deithio / cynllunio teithiau drwy ei wefan arobryn, ac oddeutu 1.4 miliwn o ddarnau o wybodaeth ar apiau bob blwyddyn. Mae'r sefydliad wedi gweld cynnydd sylweddol yn y galw am wybodaeth dros y blynyddoedd diwethaf, a darparodd gyfanswm o 3.8 miliwn o ddarnau o wybodaeth yn ystod 2014.

Rydym wedi ymrwymo i gynnig gwasanaeth dros y ffôn er mwyn darparu gwasanaeth hygyrch i bobl Cymru, yn enwedig y sawl sydd heb fynediad i'r rhyngrwyd neu wasanaeth ffôn symudol, y sawl sydd â nam ar eu clyw neu'u golwg, a'r sawl sy'n cael trafferth defnyddio technolegau modern. Mae'r cwmni wedi parhau i ddatblygu ei ganolfan gyswllt ddwyieithog dros y blynyddoedd diwethaf, ac erbyn hyn mae'n darparu gwasanaeth o safon 364 diwrnod y flwyddyn.

Mae'r cyfleuster wedi'i leoli ym Mhenrhyndeudraeth, Gwynedd ac mae'n gweithredu o 7am i 8pm saith diwrnod yr wythnos ar wahân i Ddydd Nadolig. Mae'r ganolfan gyswllt yn ymdrin ag oddeutu 100,000 o alwadau'r flwyddyn ar ran Traveline Cymru.

Mae'r cyfleuster hefyd yn gwasanaethu contractau eraill, gan gynnwys gwasanaethau cwsmer cyflawn a ddarperir ar ran Trenau Arriva Cymru a Bysiau First Cymru a galwadau Cymraeg ar ran NRES, sawl cwmni cyfleustodau a chynllun Bwcabus Cyngor Sir Caerfyrddin a Chyngor Sir Ceredigion. Mae'r contractau hyn yn cynhyrchu refeniw masnachol sy'n helpu i wrthbwyso'r gost o ddarparu gwasanaethau Traveline Cymru.

Yn fwy diweddar mae'r cwmni wedi dechrau gweithredu'r fenter 'fyngherdynteithio' sy'n cynnig tocynnau bws rhatach i bobl ifanc 16-18 oed.

**Mae amcanion y cwmni yn cynnwys y canlynol:**

- Sicrhau bod gan bawb sy'n defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus *un lleoliad* lle gallant gael gafael ar unrhyw wybodaeth y mae ei hangen arnynt, ar ffurf amserlen neu ar ffurf gwybodaeth amser real, yn ogystal â chynlluniau teithio y mae modd eu hargraffu.
- Ategu polisïau Llywodraeth Cymru ynghylch integreiddio trafnidiaeth gyhoeddus, gan wella prosesau darparu gwybodaeth am deithio, a gwella profiad y cwsmer o wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus.
- Cydweithio'n agos â sefydliadau eraill megis awdurdodau lleol er mwyn dosbarthu'r wybodaeth, gan sicrhau'r budd mwyaf posibl o fuddsoddi ac osgoi dyblygu gwariant ac arbenigedd.

- Marchnata a hyrwyddo’r ffaith bod gwybodaeth am deithio ar gael, yn gyson ac yn eang drwy Gymru gyfan, gan roi sylw arbennig i sicrhau bod y wybodaeth yn hygyrch i bawb yn y gymuned.
- Darparu gwasanaeth sy’n gost-effeithiol iawn drwy adolygu costau’n barhaus a manteisio ar gostau technoleg, sy’n gostwng drwy’r amser.

0871 200 22 33
www.travelinecymru.info

TravelineCymru

Gwybodaeth teithio didrafferth
Trouble free travel info

**PO Box 83 Caerdydd CF11 8TB**

**PTI Cymru Ltd yn masnachu dan yr enw**

# TRAVELINE CYMRU

**Tystiolaeth i’r canlynol:**

Pwyllgor Dethol Tŷ’r Cyffredin ar Drafnidiaeth

Ymchwiliad i brofiad defnyddwyr o asiantaethau moduro’r Llywodraeth

**Cynnwys**

**1. Crynodeb gweithredol**

**2. Ynglŷn â Traveline Cymru**

**3. Comisiynwyr Traffig, Swyddfa’r Comisiynydd Traffig a’r Asiantaeth Gwasanaethau Cerbydau a Gweithredwyr (VOSA) – cofrestru gwasanaethau bysiau**

**4. Prosesu data am wasanaethau bysiau yn Traveline Cymru**

**5. Sut i wella pethau ar gyfer defnyddwyr yng Nghymru**

Paratowyd gan:

Graham Walter CMILT,

Rheolwr Cyffredinol

Chwefror 2014.

## 1. Crynodeb gweithredol

- Mae Traveline Cymru yn darparu gwybodaeth ddiduedd i'r cyhoedd am bob math o drafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru. Mae'r gwasanaeth yn dibynnu'n llwyr ar gael gwybodaeth gywir a chyfredol am wasanaethau bysiau gan weithredwyr bysiau a/neu awdurdodau lleol.
- Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i'r wybodaeth hon gael ei chyflwyno gan weithredwyr bysiau i Swyddfa'r Comisiynydd Traffig a gynhelir gan VOSA yn Leeds; nid oes yn rhaid i weithredwyr roi'r wybodaeth i Traveline Cymru.
- Mae llawer o ddyblygu gwaith yn digwydd, a allai gael ei osgoi i raddau helaeth pe bai'r broses gofrestru'n cael ei chyflawni, dan drwydded neu fel arall, gan Traveline Cymru.
- Byddai hynny'n arwain at fanteision pellach i weithredwyr bysiau, y cyhoedd sy'n teithio ac eraill. Mae'r manteision hynny'n cynnwys arbed arian, y gallu i brosesu cofrestriadau yn Gymraeg, y gallu i gyflymu'r broses drwy ddefnyddio gwybodaeth leol well, a'r gallu i wneud y broses ei hun yn fwy manwl (yn enwedig yng nghyswllt newidiadau byr rybudd).

## 2. Ynglŷn â Traveline Cymru

2.1 Traveline Cymru yw enw brand PTI Cymru Ltd, sy'n gwmni a ariennir yn bennaf gan Lywodraeth Cymru ac a sefydlwyd gan weithredwyr bysiau mwyaf Cymru, o ganlyniad i Ddeddf Trafnidiaeth 2000. Mae'n gwmni dielw, a'i brif ddiben yw darparu gwybodaeth ddiduedd i'r cyhoedd am bob math o drafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru.

2.2 Yn 2013 darparodd y cwmni 3.9 miliwn o ddarnau o wybodaeth am deithio, drwy wahanol ddulliau fel y nodir yn fanylach ym mhwynt 2.6 isod.

2.3 Mae'r cwmni yn gweithredu'n annibynnol ar ddulliau llywodraethu Traveline y DU ond mae'n cydymffurfio â threfniadau gwasanaeth y cytunwyd arnynt.

2.4 Mae'r cwmni hefyd yn darparu data i gwmnïau bysiau, awdurdodau lleol a chyflenwyr eraill er mwyn cynorthwyo'r gwaith o ddarparu gwasanaethau gwybodaeth amser real am fysiau, gwybodaeth am arosfannau bysiau ac amserlenni, ac arddangosfeydd gwybodaeth y mae modd i'r cyhoedd eu gweld.

2.5 Mae gwasanaeth Traveline Cymru yn dibynnu'n llwyr ar gynnal cronfa ddata gywir sy'n sail i'r holl broses o ddarparu gwybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus. Mae'r gronfa honno'n cynnwys data a ddarperir gan weithredwyr bysiau ac awdurdodau lleol yng Nghymru (yn ogystal â data cenedlaethol sy'n gysylltiedig â theithio ar drenau, bysiau a thrafnidiaeth awyr). Mae angen diweddaru'r data yn gyson gan fod gweithredwyr bysiau'n gallu newid eu hamserlenni unrhyw bryd, yn amodol ar ofynion sy'n ymwneud â rhybuddion statudol.

2.6 Mae'r galw am wybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru yn tyfu'n gyflym iawn. Mae'r ffaith bod technolegau digidol a symudol yn dod i'r amlwg yn golygu bod defnyddwyr, erbyn hyn, yn disgwyl cael y wybodaeth ddiweddaraf ar flaenau eu bysedd ac wrth fynd o le i le. Dangosir tystiolaeth o'r duedd hon isod:

**Nifer y darnau o wybodaeth a'u dosbarthiad rhwng 2009 a 2013**

| Dull o ddarparu gwybodaeth | Cyfanswm ar gyfer 2013 | Y gyfran fesul dull ar gyfer 2013 | Cyfanswm ar gyfer 2012 | Cyfanswm ar gyfer 2011 | Cyfanswm ar gyfer 2010 | Cyfanswm ar gyfer 2009 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Galwadau a gaiff eu hateb yn y ganolfan alwadau | 152,283 | 3.9% | 176,037 | 224,236 | 300,408 | 319,529 |
| Negeseuon testun | 150,530 | 3.9% | 151,432 | 174,271 | 146,885 | 106,558 |
| Aps ar lechi / ffonau symudol | 1,401,615 | 35.9% | 739,382 | 143,511 | 67,206 | 13,296 |
| Gwybodaeth o'r wefan | 2,198,412 | 56.3% | 1,953,449 | 1,471,299 | 1,154,686 | 998,378 |
| Gwybodaeth am brisiau tocynnau o'r we / ap | 3,475 | | | | | |
| Cyfanswm y darnau o wybodaeth a ddarparwyd | **3,906,315** | | **3,020,300** | **2,013,317** | **1,669,180** | **1,437,761** |

- Cynyddodd cyfanswm y darnau o wybodaeth a ddarparwyd 29.3% yn ystod 2013, yn bennaf o ganlyniad i'r galw am apiau ar gyfer llechi a ffonau symudol, nad oeddent yn bodoli 5 mlynedd yn ôl.

2.7 Yn awr yn fwy nag erioed, mae'n hanfodol bod gwybodaeth sy'n hysbys i weithredwyr bysiau a VOSA ar gael ar unwaith i'r cyhoedd sy'n teithio, drwy wasanaethau megis Traveline Cymru ac eraill. Er hynny, systemau gwirfoddol yn unig yn hytrach na deddfwriaeth sy'n cefnogi dulliau o gael

gafael ar y wybodaeth honno, sy'n golygu oedi anorfod, achosion o ddyblygu gwaith, a chostau diangen, fel y nodir isod.

## 3. VOSA a chofrestru gwasanaethau bysiau

3.1 O safbwynt ymarferol, caiff Swyddfa'r Comisiynydd Traffig ei staffio gan weithwyr a gyflogir gan VOSA (sef yr Asiantaeth Safonau Gyrwyr a Cherbydau (DVSA) cyn bo hir) ond sy'n gweithio i'r comisiynwyr traffig, ac ar ran y comisiynwyr traffig, er mwyn ymdrin â materion gweinyddol neu gyflawni swyddogaethau a ddirprwywyd.

3.2 Rhaid i'r holl weithredwyr bysiau sy'n rhedeg gwasanaethau yng Nghymru gofrestru'r gwasanaeth arfaethedig ac unrhyw amrywiadau i wasanaethau cyfredol, drwy wneud cais i'r Comisiynydd Traffig gan ddefnyddio'r gweithdrefnau a nodir gan Swyddfa'r Comisiynydd Traffig. Codir ffi o £60 am bob cofrestriad, sy'n daladwy i VOSA.

3.2 I'r mwyafrif, mae hynny'n golygu llenwi ffurflen PSV350 yr Adran Drafnidiaeth, a gaiff ei hanfon i Swyddfa'r Comisiynydd Traffig yn Leeds sy'n ymdrin â'r broses gofrestru ar ran y Comisiynydd Traffig. Mae hefyd yn ofynnol i weithredwyr anfon copi o'r gwaith papur i bob awdurdod lleol lle mae'r gwasanaeth yn gweithredu.

Yn aml yng Nghymru, os caiff y gwasanaeth ei osod ar dendr, h.y. os caiff gymhorthdal gan yr awdurdod lleol, ac os yw'r gweithredwr yn gwmni annibynnol llai o faint, caiff y cofrestriad ei gwblhau a'i gyflwyno gan yr awdurdod lleol.

3.3 Rhaid i gofrestriad sydd wedi'i gwblhau'n gywir gynnwys disgrifiad clir o'r llwybr, mapiau cyfatebol ac amserlen lawn. Dylid cyflwyno'r cofrestriad yn brydlon, h.y. **o leiaf pum deg a chwech o ddiwrnodau cyn** y dyddiad cychwyn arfaethedig, neu os yw'n hwyr rhaid cyflwyno llythyr ategol gan yr awdurdod lleol perthnasol i gadarnhau'r rheswm dros gyflwyno'r cofrestriad yn hwyr.

3.4 Cyflwynwyd dull electronig o gofrestru gwasanaethau (EBSR) rai blynyddoedd yn ôl. Bwriad y broses hon oedd symleiddio'r weithdrefn, cynnig arbedion effeithlonrwydd a chyflymu'r broses. Fodd bynnag, nid yw'r system yn berffaith ac yn gyffredinol mae'r cynnydd yn nifer y gweithredwyr sy'n ei defnyddio wedi bod yn araf.

3.5 Rydym ar ddeall nad oes unrhyw ddarpariaeth ar hyn o bryd ar gyfer cyflwyno gwaith papur y broses gofrestru yn Gymraeg, ac nad oes unrhyw ddarpariaeth chwaith ar gyfer ymdrin â sgyrsiau ffôn dilynol rhwng y gweithredwr bysiau a Swyddfa'r Comisiynydd Traffig yn Gymraeg.

3.6 Rydym ar ddeall hefyd bod Comisiynydd Traffig Cymru wedi dweud o'r blaen bod diffyg gwybodaeth leol wedi arwain at gwynion gan ddefnyddwyr ynghylch y ffaith bod gwasanaethau wedi'u cofrestru fel gwasanaethau "ysgol i ysgol" er enghraifft; o safbwynt gweithredwr yng Nghymru mae hynny'n dangos diffyg gwybodaeth leol, sy'n peri rhwystredigaeth. Gan fod llawer o ysgolion yng Nghymru, gwerth cyfyngedig oedd i'r cofrestriad.

3.7 Yn ogystal, ceir digon o dystiolaeth anecdotaidd sy'n dangos bod y manylion a gyflwynir mewn llawer o achosion yn methu â chyrraedd y lefel ofynnol, sy'n golygu bod yn rhaid i swyddogion Swyddfa'r Comisiynydd Traffig gysylltu'n uniongyrchol â gweithredwyr; mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu bod hynny'n digwydd er mwyn arbed amser, er y dylai'r dogfennau gael eu hanfon yn ôl er mwyn iddynt gael eu cyflwyno'n gywir.

3.8 Mae pryderon eraill a nodwyd yn cynnwys y ffaith bod adnoddau cyfyngedig o ran staff yn Leeds yn golygu bod sêl bendith yn cael ei rhoi'n awtomatig i gofrestriadau heb fod digon o waith craffu'n digwydd. Derbynnir gan lawer bod y broblem sy'n ymwneud â chofrestriadau hwyr / byr rybudd yn cael ei hanwybyddu i raddau helaeth. Mae'n ofynnol i weithredwyr roi 56 diwrnod o rybudd i Swyddfa'r Comisiynydd Traffig os bydd gwasanaeth yn cael ei amrywio neu'i dynnu'n ôl. Diben hynny yw sicrhau, ymysg pethau eraill, bod teithwyr yn cael digon o rybudd. Mae ystadegau Traveline Cymru yn dangos ar gyfer 2012 bod 95 allan o 1,248 o gofrestriadau wedi cyrraedd Traveline Cymru ***ar ôl*** y dyddiad y cafodd y gwasanaeth ei newid, sydd ymhell iawn o'r nod, sef

rhoi 56 diwrnod o rybudd cyn y newid. Mae hynny'n peri rhwystredigaeth i'r cyhoedd sy'n teithio ac mae'n ychwanegu at gamsyniadau ynghylch dibynadwyedd trafnidiaeth gyhoeddus.

## 4. Prosesu data am wasanaethau bysiau yn Traveline Cymru

4.1 Fel y nodwyd uchod, er mwyn darparu gwasanaeth sy'n rhoi gwybodaeth gynhwysfawr am drafnidiaeth gyhoeddus, mae angen i Traveline Cymru gael gwybodaeth gan y gweithredwr bysiau am bob gwasanaeth a gaiff ei weithredu ac am bob newid a wneir i'r gwasanaethau sy'n bodoli eisoes. Hynny yw, mae angen i'r cwmni weld popeth y mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i'r gweithredwr bysiau ei gyflwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Traffig ym mharagraff 3.3 uchod.

4.2 Er hynny, nid oes unrhyw hawl gyfreithiol gan Traveline Cymru i gael dogfennau cofrestru statudol gweithredwyr bysiau, gan gynnwys gwybodaeth am newidiadau ac amrywiadau.

4.3 Yn hytrach, ceir copïau o'r ffurflen gofrestru PSV350 gan yr awdurdod lleol neu'r gweithredwr drwy drefniadau gwirfoddol yn aml. Os yw'r trefniadau hynny'n methu caiff dulliau mwy creadigol eu defnyddio i gael gafael ar wybodaeth gyfredol, sy'n cymryd llawer o amser.

Gan fod cywirdeb gwasanaeth Traveline Cymru yn dibynnu'n llwyr ar gael copïau o fanylion cofrestru gan awdurdodau lleol a gweithredwyr, caiff gwybodaeth anghywir am amserlenni / cynllunio teithiau ei darparu i'r cyhoedd pan na fydd y rhain ar gael.

Nid yw'r system hon yn ddigon cadarn, ac yn aml nid ydym yn ymwybodol o'r hyn nad ydym yn ei wybod.

4.4 Mae cwynion am ddata anghywir a ddarperir gan Traveline Cymru yn amlwg iawn, ac maent yn golygu nad yw teithiau'n cael eu cwblhau a bod cwsmeriaid yn mynd yn flin; yn ystod 2013 cafwyd 80 o gwynion a oedd yn ymwneud â data.

4.5 I bob pwrpas mae Traveline Cymru yn ymdrin â'r un ddogfen gan weithredwr bysiau â'r swyddogion yn Leeds, ac mae'n cael gwybodaeth hynod o debyg ohoni; mae hynny'n arwain at achosion o ddyblygu gwaith, a allai gael eu hosgoi gan leihau'r gost i bwrs y wlad.

## 5. Sut i wella pethau ar gyfer defnyddwyr yng Nghymru

5.1 Yn y cyd-destun hwn rydym yn diffinio 'defnyddwyr' fel y sawl sy'n defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, defnyddwyr posibl, awdurdodau lleol, a phartïon eraill sy'n arddangos gwybodaeth am amserlenni / cynllunio teithiau.

5.2 Yn dilyn gwaith ymchwilio a wnaed yn 2011, mae Traveline Cymru o'r farn y byddai manteision gwirioneddol i'w cael pe bai Traveline Cymru yn ymgymryd â'r gwaith o brosesu cofrestriadau gwasanaethau bysiau ar gyfer Ardal Draffig Cymru, naill ai ar ran neu yn lle Swyddfa'r Comisiynydd Traffig yn Leeds. Mae'r manteision hynny'n cynnwys y canlynol:

- Gwella ansawdd y wybodaeth a roddir i ddefnyddwyr am drafnidiaeth gyhoeddus.
- Gwella gwaith craffu a gwella'r modd y caiff daearyddiaeth llwybrau a rhesymeg a chywirdeb amserlenni eu gwirio.
- Sicrhau dull mwy cadarn o ymdrin â chynnwys anghyflawn, neu'n bwysicach na hynny, ymdrin â chynnwys cofrestriad hwyr.
- Lleihau'r amser rhwng yr adeg y caiff gwasanaeth ei gofrestru a'r adeg y mae gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd (a rhanddeiliaid eraill).
- Prosesu cofrestriadau yng Nghymru, gyda gwybodaeth leol, ac yn anad dim drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Dileu achosion niferus o ddyblygu gwaith wrth gaffael data.
- Arbed arian i'r trethdalwr.

5.4 Mae Traveline Cymru hefyd yn cyflwyno systemau TG newydd i wella'r sefyllfa ar gyfer Cymru drwy leihau prosesau cofrestru mewnol a gwella dyfnder ac ansawdd data. Byddai adleoli'r broses

cofrestru gwasanaethau o Swyddfa'r Comisiynydd Traffig yn Leeds i Traveline Cymru yn golygu y byddai man cychwyn y gadwyn cyflenwi data yn y lle gorau ar gyfer diwallu anghenion Cymru o ran gwybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus.

5.5 Yn ein barn ni, y ffordd symlaf o symud y gwaith o brosesu cofrestriadau o Swyddfa'r Comisiynydd Traffig yn Leeds i Traveline Cymru fyddai trafod â Swyddfa'r Comisiynydd Traffig, VOSA, yr Adran Drafnidiaeth a'r Comisiynydd Traffig ar gyfer Ardal Draffig Cymru, er mwyn ymgymryd â'r gweithgarwch hwn ar ran y Comisiynydd Traffig trwy ryw fath o drefniant trwyddedu.

5.6 Fel arall, hwyrach y byddai modd hybu newidiadau i'r ddeddfwriaeth ar gyfer Cymru er mwyn caniatáu i'r gweithgarwch hwn ddod dan reolaeth uniongyrchol Llywodraeth Cymru, yn ogystal efallai â gweithgareddau rheoleiddio cysylltiedig eraill sy'n ymwneud â thrafnidiaeth gyhoeddus.

5.7 Mae'r dull gweithredu a nodir yn 5.5 yn achosi rhai trafferthion y byddai angen mynd i'r afael â nhw, ac maent yn cynnwys y canlynol:

- Gorfodi gweithredwyr i gyflwyno eu cofrestriadau i Traveline Cymru yn lle Swyddfa'r Comisiynydd Traffig. Gallai'r gwaith hwnnw fod yn eithaf syml, neu gallai gael ei gyflawni drwy ailgyfeirio cofrestriadau o Leeds, ond ni chaiff ei adlewyrchu yn y ddeddfwriaeth gyfredol.
- Sicrhau bod hawl gyfreithiol gan staff Traveline Cymru i ysgwyddo cyfrifoldeb a ddirprwywyd am agweddau ar y gwaith o brosesu cofrestriadau – 'gweision y Goron' yn unig sydd â'r hawl honno ar hyn o bryd.
- Dod o hyd i systemau derbyniol a fforddiadwy a fydd yn darparu'r cyswllt a'r integreiddio angenrheidiol rhwng Traveline Cymru a Swyddfa'r Comisiynydd Traffig.

5.8 Pe bai modd ymgymryd â'r broses yn rhan o newid ehangach i ddeddfwriaeth (gweler 5.6) byddai'r broses yn symlach, byddai'r goblygiadau o ran systemau'n llai beichus, a byddai gan Traveline Cymru yr hyblygrwydd i gymryd camau annibynnol i weithredu prosesau sydd wedi'u teilwra ar gyfer anghenion Cymru, yn hytrach na sicrhau bod popeth yn cyd-fynd yn llwyr â llif gwaith presennol Swyddfa'r Comisiynydd Traffig. Mae hon yn ystyriaeth bwysig oherwydd byddai Traveline Cymru yn hoffi gwella'r sefyllfa bresennol yn hytrach nag adleoli'r gweithgarwch yn unig.

Diwedd